



Age Cymru

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a Datganiadau Ariannol 2009-10



Cynnwys

	Tudalen
Neges y Cadeirydd	3
Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu ar yr 31 ^{ain} o Fawrth 2010	4
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Age Cymru Cyfyngedig	23
Datganiad o Weithgareddau Ariannol Cyfunol Age Cymru ac Age Concern (yn cynnwys y Cyfrif Elw a Cholled) ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu ar yr 31 ^{ain} o Fawrth 2010	25
Datganiad o Weithgareddau Ariannol Age Cymru (yn cynnwys y Cyfrif Elw a Cholled) ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu ar yr 31 ^{ain} o Fawrth 2010	26
Datganiad o Gyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig Age Cymru ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu ar yr 31 ^{ain} o Fawrth 2010	27
Mantolen Gyfunol Age Cymru ac Age Concern Cymru fel ar yr 31 ^{ain} o Fawrth 2010	28
Mantolen Age Cymru fel ar yr 31 ^{ain} o Fawrth 2010	29
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol Cyfunol ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu ar yr 31 ^{ain} o Fawrth 2010	30

Neges y Cadeirydd

Mae wedi bod yn bleser ac yn anrhydedd i fod yn gadeirydd ar Fwrdd Ymddiriedolwyr Age Cymru yn ystod y flwyddyn gyntaf wedi uno Age Concern Cymru a Help the Aged (gweithrediadau Cymru) ar y 1^{af} o Ebrill 2009.

Oherwydd y llwyth mawr o waith a wnaed gan staff y ddau sefydliad yn 2008, roedd yn bosib i ni gwblhau'r uno ar amser a sefydlu cyllideb ar gyfer y sefydliad, a fyddai'n isafu'r risg ariannol yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, gwelwyd newidiadau digyffelyb i staff y ddau sefydliad blaenorol, gyda lleoliadau gwaith newydd, swyddi newydd, cyfrifoldebau newydd a ffyrdd newydd o weithio. Mae'r fath radd o newid yn ansefydlogi ac mae'n straen, felly mae'n gredyd iddynt eu bod wedi cyflawni cymaint a'u bod wedi symud mor bell mewn cyfnod mor fyr o amser.

Er gwaethaf yr holl waith ychwanegol a fu'n angenrheidiol i roi ein strwythurau newydd a'r brandio ar waith, rydym wedi parhau i gyflawni pethau ardderchog, i wella bywydau pobl hŷn ar draws Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'n gwaith a'n llwyddiannau yn ystod y flwyddyn.

Gwyddwn ein bod yn byw mewn amserau ariannol ansicr; mae'n bosib y bydd arian y llywodraeth yn cael ei rewi neu ei ostwng dros y blynyddoedd nesaf ac mae'n mynd yn anoddach i sicrhau incwm oddi wrth roddwyr a chefnogwyr preifat, pan fod amserau'n anodd i bobl. Fodd bynnag, rydym yn benderfynol iawn o hyd, nid yw ein brwdfrydedd wedi lleihau ac rydym yn barod i symud ymlaen i wynebu'r sialensiau yma o dan ein brand Age Cymru newydd.

Rwy'n siŵr y bydd yn ddyfodol cyffroes a heriol, ond yn bwysicaf oll fe fydd yn fuddiol ac edrychaf ymlaen at weithio gyda'r ymddiriedolwyr, y staff, y budd-ddeiliaid a'r partneriaid, i wneud Age Cymru yn yr elusen o ddewis i bobl hŷn yng Nghymru.

Dr Bernadette Fuge MBBCH,LLM,MPH
Cadeirydd

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu ar yr 31^{ain} o Fawrth 2010

Strwythur, Llywodraethu a Rheoli

Age Cymru

Cwmni elusennol yw Age Cymru, sy'n gyfyngedig trwy warant ac sydd wedi'i gofrestru yn Lloegr a Chymru. Sefydlwyd y sefydliad yn unol â Memorandwm Sefydlu ar y 4^{ydd} o Fawrth 2009, a dechreuodd weithredu ar y 1^{af} o Ebrill 2009, wedi uno Age Concern Cymru a Help the Aged (gweithrediadau Cymru).

Enw'r Elusen:	Age Cymru
Rhif Cofrestru'r Elusen:	1128436
Rhif Cofrestru'r Cwmni:	6837284
Swyddfa Gofrestredig:	Tŷ John Pathy 13/14 Cwrt Neptune Ffordd Blaen-y-gad Caerdydd CF24 5PJ

Aelodau

Yn ystod y flwyddyn, aelodau Age Cymru oedd yr Ymddiriedolwyr ac Age UK.

Bwrdd Ymddiriedolwyr 2009/2010

Dr Bernadette Fuge	Cadeirydd
Mr Christopher Ward	Dirprwy Gadeirydd
Mr Nigel Towns (C)	Trysorydd (Penodwyd 11 ^{eg} o Fai 2009)
Yr Athro'r Fonesig June Clark	
Ms Pam Dodd	(Penodwyd 22 ^{ain} o Ionawr 2010)
Ms Valmai Fox	
Ms Alison Huggins (C)	
Mr Meirion Hughes	(Penodwyd 17 ^{eg} o Dachwedd 2009)
Mr Michael Ponton (C)	
Mr David Vokes	(Penodwyd 17 ^{eg} o Dachwedd 2009)
Ms Hilary Wiseman	
Ms Caroline Bentalow	(Ymddiswyddodd 3 ^{ydd} o Fedi 2009)

(C) yn dynodi aelod o'r Pwyllgor Cyllid

Arsylwr

Mr Michael Talbot

Prif Swyddogion:

Prif Weithredwr
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
Cyfarwyddwr Dylanwadu a Datblygu Rhaglenni

Mr Robert Taylor OBE
Ms Jane Reeks
Ms Victoria Lloyd

Bancwyr:

Banc y National Westminster
Cangen Park Place
PO Box 247
Caerdydd
CF1 3TA

Archwilwyr:

Broomfield and Alexander Ltd
Tŷ Pendragon
Caxton Place
Pentwyn
Caerdydd
CF23 8XE

Cyfreithwyr:

Geldards LLP
Tŷ Dumfries
Dumfries Place
Caerdydd
CF10 3ZF

Rôl ac Enwebu Ymddiriedolwyr

Mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cynnwys 12 aelod, yn cynnwys y Cadeirydd. Penodwyd wyth o'r Ymddiriedolwyr yn dilyn argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Enwebu; penodwyd 1 Ymddiriedolwr yn dilyn enwebiad gan Age UK a phenodwyd 1 Ymddiriedolwr yn dilyn enwebiad gan bartneriaeth o fudiadau Age Concern yng Nghymru.

Y Bwrdd Ymddiriedolwyr sy'n rheoli'r elusen, ei heiddo a'i harian. Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Bwrdd 6 thro, ac ym mhob cyfarfod derbyniodd gopi o'r gofrestr risg ddiweddaedig ac adroddiadau oddi wrth y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Pwyllgor Cyllid.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn ffurfio'r Uwch Dîm Rheoli ac maent yn gyfrifol am reoli a rhoi'r elusen ar waith yn feunyddiol.

Elusennau Cysylltiedig

Mae Age Cymru yn elusen annibynnol a hi yw unig Ymddiriedolwr Cyngor Cymru ar Heneiddio (Age Concern Cymru). Mae'r Comisiwn Elusennau wedi rhoi Cyfarwyddyd Cyfunol, sy'n caniatáu i Age Cymru i gyflwyno un set gyfunol o gyfrifon ac adroddiad blynyddol ar gyfer y ddwy elusen.

Nid yw'r sefydliad wedi'i gysylltu'n gyfreithlon i unrhyw elusen arall.

Mae Cyngor Cymru ar Heneiddio (Age Concern Cymru) yn elusen anghorfforedig, a lywodraethir gan gyfansoddiad, rhif cofrestru'r elusen 505071. Wedi'r uno ar y 1^{af} o Ebrill 2009, roedd Age Concern Cymru yn dal i fodoli er mwyn dod â materion cyfreithiol i ben a chwblhau'r holl ofynion cyfreithiol ar gyfer y Comisiwn Elusennau ac i gadw'r adeilad y mae'n ei brydlesu i Age Cymru.

Bwrdd Ymddiriedolwyr 2009/2010

Mr Mike Talbot	Cadeirydd
Mr Mike Harbinson	
Mr Wynne Phillips	
Ms Nancy Davies	
Mr Geraint Lewis	Trysorydd

Mae gan Age Cymru rôl wrth ddiffinio polisi cyhoeddus mewn materion sydd o ddiddordeb i bobl hŷn, a ddatganolwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r elusen yn gweithio'n agos gydag Age UK, Age Scotland ac Age NI.

Mae Age Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gyda Age Concern Lleol, ac mae pob un ohonynt yn elusennau annibynnol nad sy'n rhan o'r uno gyda Help the Aged.

Yr Uno

Roedd y rhesymwaith tu ôl i'r penderfyniad i uno a chreu elusen newydd yn seiliedig ar y manteision canlynol:

- Roedd er lles gorau pobl hŷn
- Nid yn unig roedd yn golygu uno dau sefydliad sy'n bodoli, ond hefyd byddai'n creu rhywbeth newydd gyda chymhelliant a ffocws ffres ac ymrwymiad i hunan-adnewyddu
- Leihau'r ailadrodd a chystadleuaeth ddiangen
- Lefel yn uwch o gadernid
- Diwedd ar ddryswch y cyhoedd am y ddau frand. Brand sengl sy'n gryf ac yn glir, a bydd yn mwynhau hanes corfforaethol cyfun a'r parch a fynir gan y ddau sefydliad blaenorol
- Gweithio gyda Phartneriaid Brand ar draws Cymru, y DU ac yn rhyngwladol, i ymdrin ag anghenion y bobl hŷn mwyaf ddifreintiedig
- Bwrdd Ymddiriedolwyr ymreolaethol, wedi ei leoli yng Nghymru, sy'n llywodraethu ei waith gyda dealltwriaeth arbenigol o sefyllfa pobl hŷn a'r boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru, fframwaith polisi Cymru, yr amgylchedd gwleidyddol a'r ffactorau ieithyddol a diwylliannol arall sy'n effeithio ar bobl hŷn.

Gweledigaeth Age Cymru yw byd ble mae pobl hŷn yn blodeuo

Yn ystod ei blwyddyn gyntaf o weithredu, mae'r Elusen newydd wedi cael ei ailstrwythuro'n fewnol i raddau helaeth, i sicrhau bod y ddau sefydliad yn cael eu hintegreiddio'n llawn ac yn effeithiol, wrth ddarparu budd sylweddol i'r cyhoedd, yn unol â'n hamcanion elusennol.

Amcanion

Roedd y Memorandwm Sefydlu'n traethu amcanion yr Elusen, sef hyrwyddo'r dibenion canlynol er lles y cyhoedd a/neu bobl hŷn:

- Atal neu liniaru tlodi pobl hŷn
- Cynnig addysg
- Atal neu liniaru salwch, afiechyd neu ddiodefaint ymhlith pobl hŷn (boed hynny'n emosiynol, yn feddyliol a/neu'n gorfforol)
- Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Hyrwyddo hawliau dynol pobl hŷn, yn unol â'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol
- Cynorthwyo pobl hŷn sydd mewn angen oherwydd afiechyd, anabledd, caledi ariannol neu anfantais
- Dibenion elusennol eraill, er lles pobl hŷn y mae'r Ymddiriedolwyr yn penderfynu arnynt o bryd i'w gilydd.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn hyrwyddo lles pobl hŷn.

Blaenoriaethau

Ar adeg yr uno, roedd Age Concern Cymru a Help the Aged yng Nghymru flwyddyn i mewn i gylched cynllunio busnes tair blynedd, ac yn ystod blwyddyn gyntaf yr Elusen gyfun roedd yn bwysig:

- Cyflawni'r ymrwymadau a oedd yn bodoli
- Integreiddio'r ddwy elusen
- Sicrhau cynladwyedd ac annibyniaeth tymor hirach Age Cymru.

Mae ein strategaeth ar gyfer cyflawni hyn wedi dod â llinynnau cyflenwol o gynlluniau busnes Age Concern Cymru a Help the Aged yng Nghymru i mewn i'r blaenoriaethau gweithredol canlynol:

- Cydraddoldeb, Hawliau Dynol ac Oedraniaeth
- Cyfranogiad, Cynhwysiant, Grymuso a Chyfraniad
- Dylanwadu ar Newid a Gwella Bywydau Pobl Hŷn
- Heneiddio'n Iach a Lles
- Cynladwyedd a Datblygu Rhwydwaith

Gweithgareddau a Chyflawniadau

1. Cydraddoldeb, Hawliau Dynol ac Oedraniaeth

Ers amser maith, mae pobl hŷn yn ein cymdeithas wedi dioddef rhagfarn a gwasanaethau annerbyniol oherwydd eu hoed yn syml. Mae'r fath oedraniaeth endemig a'r gwahaniaethu canlyniadol yn medru arwain at dlodi, anfantais a chau allan; mewn achosion eithriadol gall arwain at gam-drin yr henoed.

Fe wnaeth arolwg barn, a gynhaliwyd ar ran yr elusen yn Chwefror 2010, gadarnhau'r canfyddiad cyffredinol yng Nghymru y gwahaniaethir yn erbyn pobl hŷn ar sail eu hoed. O'r rhai hynny a holwyd, roedd 71% yn cytuno y gwahaniaethir yn erbyn pobl hŷn mewn cyflogaeth; roedd 61% yn cytuno bod cwmnïau yswiriant yn gwahaniaethu ac roedd 53% o'r farn fod hyn yn wir am wasanaethau ariannol.

Am y rhesymau yma, mae hyrwyddo **cydraddoldeb a hawliau dynol** pobl hŷn yn ganolog i'n gwaith. Rydym yn cymhwyso'r egwyddorion yma fel llinynnau allweddol o waith yn eu rhinwedd eu hunain; yn ogystal, rydym yn eu defnyddio i ategu'r ymagwedd at bob agwedd o'n gweithgareddau.

Yn ystod 2009/10, fe wnaeth ein rhaglen Cam-drin Pobl Hŷn, a ariennir gan Comic Relief ac a gefnogir gan grŵp ymgynghorol arbenigol o blith mudiadau Age Concern Lleol, gyflawni allbynnau a chanlyniadau arwyddocaol wrth hyrwyddo hawliau pobl hŷn ac o ran eu **diogelu** rhag camdriniaeth. Ym mis Mehefin 2009, cynhaliwyd cynhadledd deuddydd proffil uchel, i archwilio'r materion sy'n gysylltiedig â gwella mynediad at gyfiawnder i bobl hŷn ac i ystyried camdriniaeth ariannol a sgamiau. Denodd y gynhadledd siaradwyr enwog a phroffil uchel, a chafodd gryn dipyn o sylw yn y wasg a'r cyfryngau. Atgyfnerthodd y gynhadledd sefyllfa'r Elusen, fel arbenigwr ar faterion yn ymwneud â cham-drin yr henoed, ac fe'n galluogodd i sicrhau bod pryderon a materion yn cael eu hymdrin yn uniongyrchol gyda'n cynulleidfa, a oedd yn cynnwys gweision sifil allweddol, pobl broffesiynol sy'n gweithio gyda phobl hŷn, yn ogystal â'r bobl hŷn eu hunain. Mae ein gwaith yn y maes hwn yn cynrychioli cyfraniad uniongyrchol tuag at ein nod o atal dioddefaint ymhlith pobl hŷn.

Trwy'r sylw cyffredinol a dderbyniodd, cyfrannodd y gynhadledd yn sylweddol at greu ymwybyddiaeth y cyhoedd o **gam-drin ariannol**, yn enwedig sgamiau sy'n cael eu targedu at bobl hŷn. Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd yn elfen hanfodol o'n gwaith i atal cam-drin yr henoed ac roedd hwn yn un o lawer o gyfleoedd a ddefnyddiwyd gennym yn ystod y flwyddyn i godi proffil y mater. Cafodd y **pecyn sgamiau**, a baratowyd yn Chwefror 2009, ei ailargraffu a pharhawyd i'w ddosbarthu i bobl hŷn ar hyd a lled Cymru, gyda fersiynau ar gael yn Braille, print bras a sain, i sicrhau ei fod ar gael yn eang.

I gyd-fynd gyda'r gwaith o greu ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol, fe wnaeth y prosiect ddosbarthu bwletin rhannu gwybodaeth yn rheolaidd i'n rhwydwaith o bobl broffesiynol a budd-ddeiliaid, i helpu i ledaenu arfer da ac arloesedd ar draws y sector.

Cyhoeddwyd rhifyn o **Envisage**, ein cylchgrawn trafod, a oedd yn ystyried y dadleuon ynglŷn â'r angen am ddeddfwriaeth yng Nghymru i ddiogelu pobl hŷn. Cafodd ei ddosbarthu'n eang i ffurfyddion barnau, arianwyr a budd-ddeiliaid ac roedd yn darparu cyfraniad deallus at y ddadl yn y maes hwn. Yn ogystal, roedd yr Elusen yn medru rhoi cyngor arbenigol i fwrdd prosiect Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n gweithio yn y maes hwn ar hyn o bryd.

Er mwyn adeiladu ar y corff o dystiolaeth a gasglwyd yn ystod oes y Prosiect Cam-drin Pobl Hŷn, fe wnaeth Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru gomisiynu'r Elusen i gynnal **ymchwil** pellach i'r ddarpariaeth o **eiriolaeth** yng Nghymru. Bydd y gwaith hwn yn cyd-fynd â'r

ymchwil cynt, a bydd yn cyfrannu ymhellach at y sylfaen o dystiolaeth i ddatblygu eiriolaeth yng Nghymru yn y dyfodol.

Yn ystod mis Mawrth 2010, fe wnaethom weithio mewn partneriaeth gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiwn y Gyfraith, i gynnal cynhadledd i ystyried diwygio Cyfraith Gofal Cymdeithasol Oedolion. Trefnwyd y gynhadledd i gyfrannu at broses ymgynghori swyddogol Comisiwn y Gyfraith, i sbarduno dadl ac i gymell ymateb, gyda'r nod o sicrhau bod unrhyw ddiwygiad yn gwella'r fframwaith cyfreithiol sy'n ymwneud â mynediad at, a'r ddarpariaeth o ofal cymdeithasol.

Ers nifer o flynyddoedd, cyn yr uno, bu Age Concern Cymru a Help the Aged yng Nghymru yn gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo'r angen i **wahardd gwahaniaethu ar sail oed** wrth ddarparu nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau. Parhaodd y gwaith hwn eleni o dan nawdd yr Elusen newydd.

Ym mis Mehefin 2009, roedd yn bleser gennym i ymateb i gais gan Bwyllgor Cyfleoedd Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i roi tystiolaeth ar Fesur Cydraddoldeb Llywodraeth y DU a'i effaith ar gydraddoldeb yng Nghymru. Fe wnaethom ddarparu cyflwyniad ysgrifenedig a mynychu sesiwn pwyllgor i roi tystiolaeth ar lafar, yn deillio o'n hymgyngoriad gyda phobl hŷn a'r profiad a'r arbenigedd mae'r Elusen wedi'i ddatblygu yn y maes hwn.

Ym mis Medi 2009, fe wnaethom gynnal '**digwyddiad gwrando**' gwahaniaethu ar sail oed yn Llanelli, ble cafodd pobl hŷn eu cymell i gyfranogi ac i roi atborth yn uniongyrchol ar eu profiadau o wahaniaethu i'w AS lleol, Nia Griffiths, a ymunodd â'r grŵp ar gyfer sesiwn y prynhawn, er mwyn rhoi ei safbwynt hi ar y Mesur Cydraddoldeb. Roedd Ms Griffiths, yn gysylltiedig yn uniongyrchol yn y broses ddeddfwriaethol, fel aelod o'r pwyllgor archwilio.

Ym mis Hydref 2009, cawsom ein comisiynu gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i gynnal **digwyddiadau cyfranogol** tebyg, i gasglu barnau pobl hŷn am y 'Dyletswyddau Penodol' y dylid eu datblygu yng Nghymru, fel rhan o weithredu'r Ddeddf Cydraddoldeb sy'n cyfarwyddo'r broses swyddogol.

Yn aml, mae'r hyn a ddysgwyd trwy'r fath ddigwyddiadau cyfranogi yn cael ei ddefnyddio'n uniongyrchol, fel gyda Digwyddiad Gwrando Llanelli, a hefyd caiff ei ddefnyddio i **ddatblygu ein polisiau** yn gyson a'n gwaith dylanwadu, yn cynnwys ble'r ydym yn darparu cynrychiolwyr ar gyfer Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb Cymru ac ar Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Cynghrair Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Ym mis Mai 2009, lanswyd Adroddiad Rhwydwaith Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol Hŷn (LGBT) yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhoddodd y lansiad hwn, a gefnogwyd gan berfformiad gan y storiwyr o Ganada Jan Andrews a Jennifer Cayley, gan ddefnyddio llenyddiaeth i ymdrin â materion bywyd go iawn gwagedd lesbiaidd, gyfle i gynnal ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ac aelodau o'r Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal. Mae'r adroddiad hwn yn adnodd hanfodol i sicrhau bod anghenion penodol pobl LGBT hŷn yn cael eu deall a'u cymhwyso, ac fe'i dosbarthwyd yn eang yn dilyn ei lansiad.

Roedd gan yr elusen stondin arddangos ym Mardi Gras Caerdydd. Barnwyd bod ein presenoldeb yn llwyddiant ysgubol, yn seiliedig ar faint o wybodaeth a chyngor a roddwyd, sef gwybodaeth a anelwyd yn benodol at faterion a brofir gan bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol hŷn a gwybodaeth generig.

Parhaodd Age Cymru i hybu Mynd yn Hŷn yng Nghymru, ein **hadnodd hyfforddi ymwybyddiaeth o oed**. Datblygwyd Mynd yn Hŷn yng Nghymru i gynorthwyo unigolion a sefydliadau i herio a dileu'r oedraniaeth sy'n medru bod tu cefn i'r driniaeth annerbyniol a roddir i bobl hŷn ac atal neu gyfyngu eu mynediad at nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau. Fel y cyfryw, mae Mynd yn Hŷn yng Nghymru yn cyfrannu at ein hamcanion wrth ddatblygu addysg a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Fe wnaethom weithio mewn **partneriaeth** gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, i gynorthwyo wrth roi'r adnodd ar waith mewn awdurdodau lleol ar draws Cymru, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r llywodraeth leol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, i sicrhau bod yr awdurdodau'n medru mwyhau eu defnydd o'r wybodaeth a chymhwysu'r egwyddorion ar draws eu sefydliadau.

Ein Gwaith yn y Dyfodol

Cwblhaodd yr ail garfan o fyfyrwyr y Cwrs Mynd yn Hŷn yng Nghymru, a achredwyd gan y Brifysgol Agored. Cynhaliwyd seremoni graddio swyddogol yn y Brifysgol Agored yng Nghymru, i ddathlu'r ddau grŵp o fyfyrwyr sydd wedi cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus. Roedd y Dirprwy Weinidog dros Bobl Hŷn, Gwenda Thomas AC, yn bresennol i gyflwyno'r gwobrau i'r unigolion. Roedd hwn yn gyfle arall i'r Elusen i bwysleisio pwysigrwydd cydraddoldeb oedran.

Bydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn parhau i fod yn feysydd gwaith arwyddocaol i'r Elusen. Trwy gydol 2010/11, byddwn yn gweithio i ddylanwadu ar y cynlluniau i roi Deddf Cydraddoldeb 2010 ar waith, i sicrhau ei bod yn cyflawni canlyniadau positif i bobl hŷn a'i bod yn arwain at welliant go iawn o ran polisi ac arfer.

Rydym yn gobeithio parhau i ddatblygu Tyfu'n Hŷn yng Nghymru fel rhaglen, a byddwn yn ceisio gweithio gyda nifer cynyddol o sefydliadau ar draws Cymru i wneud eu prosesau mewnol a'r nwyddau, y cyfleusterau neu'r gwasanaethau a ddarperir yn **addas ar gyfer pob oed**.

2. Cyfranogiad, Cynhwysiant, Grymuso a Chyfraniad

Y daliad canolog wrth greu Age Cymru oedd y bydd pobl hŷn wrth wraidd pob peth a wnawn. Wrth gymhwysu'r egwyddor hon, rydym yn cydnabod ac yn ceisio ymdrin â phryder llawer o bobl hŷn, nad yw eu barnau'n cael eu clywed neu nad yw eu cyfraniadau'n cael eu gwerthfawrogi, mater a waethygydd gan ganfyddiadau negyddol yn y wasg o bobl sy'n heneiddio a phobl hŷn. Fel Elusen, sefydlwyd ein model llywodraethu i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu cynrychioli'n uniongyrchol ar ein Bwrdd Ymddiriedolwyr, a bod ein gwaith dylanwadu'n seiliedig ar y materion a'r pryderon y mae pobl hŷn yn eu profi.

Mae ein gwaith o gwmpas **cyfranogiad, cynhwysiant, grymuso a chyfraniad** yn ceisio'n uniongyrchol i gynorthwyo pobl hŷn i gyfranogi ac i sicrhau **ein bod ni'n dylanwadu** ar ein budd-ddeiliaid allweddol, fel eu bod nhw'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r hyn mae pobl hŷn yn medru'i gyfrannu at eu prosesau gwneud penderfyniadau. Wrth wneud hyn, rydym yn ceisio sicrhau y gellir datblygu'r gwasanaethau a'r penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl hŷn, i ddiwallu eu dymuniadau a'u hanghenion, a thrwy hynny cyfrannu at ein hamcanion cyffredinol o gynorthwyo pobl hŷn.

Darparodd Age Cymru **gymorth ysgrifenyddol** i'r tri sefydliad pobl hŷn cenedlaethol ar draws Cymru: Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru, Fforwm Pensiynwyr Cymru a Chymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru. Galluogodd y cymorth hwn iddynt i fwyhau'r budd ar gyfer eu haelodau.

Fe wnaethom baratoi pum rhifyn o'r **Negesydd**, gan roi newyddion a gwybodaeth i Fforymau Pobl Hŷn am Raglen Llefaru Dros Ein Hoed, a dau rifyn o **Llais Ni**, cylchlythyr y Rhwydwaith Pobl Hŷn, ein rhwydwaith rithwir i bobl hŷn. Yn ogystal, fe wnaethom ddsbarthu **Forum to Forum**, gan roi newyddion i aelodau'r fforwm am eu cymheiriaid ar draws y DU. Mae'r cyfathrebiadau yma'n darparu gwybodaeth y mae grwpiau ac unigolion yn medru'i ddefnyddio i gynorthwyo gyda'u cyfranogiad a'u hymglymiad yn eu hardal leol neu ar lefel genedlaethol.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gynnal cyfres o **ddigwyddiadau ymgynghori** ar hyd a lled Cymru, i drafod y cynnig i gael Fforwm Ymgynghorol ar Bobl Hŷn, fel pwyllgor ymgynghorol i Fwrdd Ymddiriedolwyr Age Cymru. Cynhaliwyd sesiynau hanner diwrnod ym Mhontypridd, Aberystwyth, Port Talbot, Caerfyrddin a Bae Colwyn a chynhaliwyd sesiynau cyfyngedig gyda Chymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru, Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru, Grŵp Cyfeirio Siarad Dros Ein Hoed a Fforwm Pensiynwyr Cymru. Rhoddodd y digwyddiadau yma gyfle i'r cyfranogwyr i glywed mwy am yr Elusen, i drafod y cynigion ar gyfer fforwm ymgynghorol ac i glywed am y trefniadau i gysylltu â'r sefydliad newydd. Yn dilyn yr ymgynghori eang yma, mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr wedi cytuno ar drefniadau i ddatblygu'r Fforwm Ymgynghorol, a fydd yn cael ei wneud yn ystod 2010.

Dosbarthwyd **grantiau** Dathliad Haf i gyfanswm o £2800, gyda'r nod o leihau unigedd pobl hŷn sy'n mynychu'r digwyddiadau a drefnwyd. Yn ogystal, rhoddwyd grant i Knighton Churches Together, er budd y clwb cinio. Dosbarthwyd gwybodaeth i'r rhai sydd wedi derbyn grantiau o'r blaen, gan bwysleisio argaeledd Grantiau Dathliad Gaeaf Age UK ac i gefnogi ceisiadau.

Rhoddwyd **Cymorth i ddatblygu** i sefydlu fforymau pobl hŷn newydd ym Mynachlog Nedd, Machynlleth (Grŵp Gweithredu 50+ Dyfi) a Chwm Gwendraeth, yn cynnwys meithrin gallu cynhenid, ysgrifenyddiaeth a chymorth wrth geisio nawdd. Ym mis Medi 2009, trefnwyd sesiynau hyfforddi yn y cyfryngau ar gyfer pobl hŷn, i'w galluogi i gynorthwyo gyda'r gweithgareddau ymgyrchu; gwella eu gallu i ymateb i gyfleoedd yn y cyfryngau a chodi proffil materion sy'n ymwneud â nhw.

Trwy gydol ail hanner y flwyddyn, cafodd fforymau a grwpiau pobl hŷn eu cymell i gyfrannu at ein hymgyrch i ddatblygu cymunedau cynaliadwy am oes. Bwriad yr ymgyrch yw cymell ymglymiad y cyhoedd yn y cysyniad o gymdogaethau am oes ac i rymuso pobl i newid eu

cymunedau er gwell. Datblygodd Age Cymru'r '**Cyfrifiannell Cymunedol**', i alluogi pobl i asesu eu cymdogaethau eu hunain, ac mae'n rhoi cymorth i sefydlu a rhoi ymgyrchoedd lleol ar waith. Gosodwyd erthyglau am yr ymgyrch mewn cyhoeddiadau ar draws Cymru, a chafwyd cefnogaeth ar gyfer ein hamcanion oddi wrth awdurdodau lleol, Un Llais Cymru a llawer o grwpiau cymunedol ac ymgyrchu eraill. Bydd y Cyfrifiannell Cymunedol yn ein galluogi i fapio ymatebion ar draws Cymru, gan adnabod ardaloedd o anfantais benodol ac i ymgyrchu'n genedlaethol am gymorth ar gyfer yr elfennau sy'n cyfrannu at gymunedau am oes llwyddiannus.

Un maes a oedd yn peri pryder i bobl hŷn yng Nghymru ac ar draws y DU ac a oedd yn destun trafod trwy gydol y flwyddyn, oedd ansawdd a chost **gofal cymdeithasol**. Fe wnaeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgyngori ynghylch y mater o sut, fel cymdeithas, fyddwn ni'n talu am ofal yn y dyfodol. Fe wnaethom gynnal cyfres o dri **grŵp ffocws** ar draws Cymru, i sicrhau bod pobl hŷn yn medru darparu llais uniongyrchol ar gyfer y broses ymgyngori ac i sicrhau bod ein hymateb trefniadaethol yn un deallus.

Aethpwyd yng nghwmni grŵp o bobl hŷn i lobi **Big Q** yn Westminster, ble buont yn ymgyrchu am nawdd a materion yn ymwneud ag ansawdd gofal i bobl hŷn. Cyfarfu'r grŵp a'u AS lleol, Nia Griffiths, i drafod materion yn ymwneud â gofal a threfnwyd cyfarfodydd dilynol yn yr etholaeth ar gyfer pobl nad oedd yn medru teithio i Westminster. Rhoddodd y Llanelli Star sylw i'r gweithgaredd, gan ddenu mwy o sylw a chefnogaeth i'r mater.

Oherwydd ein bod yn gweithio i atal a **lliniaru tlodi ac anfantais** ymhlith pobl hŷn yng Nghymru, mae darparu gwybodaeth a chynghor amserol a chywir yn allweddol. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweithio tuag at ddatblygu gwybodaeth flaenllaw a gwasanaeth cynghori, sydd ar gael i bobl hŷn ar draws Cymru. Bydd y gwasanaeth yn cysylltu â'n partneriaid lleol i ddarparu gwasanaeth wyneb yn wyneb. Rydym wedi sefydlu tîm o ymgyngorwyr gwybodaeth, a fydd yn ymdrin ag ymholiadau oddi wrth bobl hŷn, eu cynorthwywyr a mudiadau Age Concern lleol, gan rymuso pob grŵp i wneud dewisiadau deallus. Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd 3,200 o ymholiadau a chafodd 52,000 pellach o adnoddau gwybodaeth eu lawrlwytho oddi ar ein gwefan.

Ochr yn ochr â datblygu'r gwasanaeth, rydym wedi parhau i gyhoeddi **adnoddau gwybodaeth**, penodol i Gymru, yn cynnwys; **Canllaw Bras i Fudd-daliadau ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru; yr ychwanegiad taflen wybodaeth Gofal Cymunedol; y taflenni ffeithiau ar Dreth Cyngor a Phobl Hŷn yng Nghymru: ffeithiau ac ystadegau allweddol**. Mae'r adnoddau yma ar gael yn uniongyrchol i bobl hŷn, a hefyd fe'u defnyddir i gynorthwyo ein partneriaid i ddarparu gwybodaeth ar lefel leol.

Mae tystiolaeth gadarn yn bwysig wrth danategu pob rhan o'n gwaith, a chynorthwywyd rhwydwaith Gwybodaeth a Chynghor Partneriaeth Age Concern Cymru i rannu materion gyda ni, ar ffurf gyffredin, gan ddarparu tystiolaeth glir o'r materion gwirioneddol sy'n effeithio ar bobl hŷn yn feunyddiol. Galluogodd hyn i ni baratoi a dosbarthu crynodebau ar faterion cyffredol i gynorthwyo wrth ddarparu cyngor ac atebion.

Ein Gwaith yn y Dyfodol

Bydd y gwaith yn parhau yn ystod y flwyddyn i sefydlu Fforwm Ymgynghorol ac i roi prosesau mewn lle, a fydd yn galluogi'r fforwm i enwebu cynrychiolydd ar ein Bwrdd Ymddiriedolwyr, fel bod pobl hŷn yn medru dylanwadu ar waith yr elusen trwy'r Strwythur Llywodraethu. Byddwn ni hefyd yn cynorthwyo gyda lansiad Senedd (cynulliad unigryw a blaengar o bobl hŷn, i ddarparu llais unedig) o Bobl Hŷn yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwasanaeth gwybodaeth a chyngor blaenllaw, i sicrhau bod pobl hŷn yn medru gwneud penderfyniadau deallus gyda'r ffeithiau a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac felly maent yn cael cymorth i ymarfer eu hawliau.

3. Dylanwadu ar Newid a Gwella Bywydau Pobl Hŷn

Er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl hŷn ar draws Cymru, a chyflawni gwir effaith, mae angen i ni **ddylanwadu** ar weithredoedd a meddyliau pobl eraill. Nod ein gwaith polisi yw dylanwadu trwy:

- arwain a rhoi fframwaith i ddadleuon ynghylch polisi cyhoeddus
- ymestyn ein dylanwad tu hwnt i'r cylch gwleidyddol i mewn i flaenoriaethau ar gyfer ymchwil, agweddau cymdeithasol a'r rhyngwyneb rhwng polisi cyhoeddus ac arfer.

Fe wnaeth y Grŵp Ymgynghorol Materion Cyhoeddus, sy'n cynnwys cynrychiolwyr sy'n Brif Swyddogion ac yn Ymddiriedolwyr o'n partneriaid mewn mudiadau Age Concern Lleol, ein cynorthwyo gyda'n gwaith polisi trwy gydol y flwyddyn, a thrwy fewnbwn pobl hŷn a gasglwyd trwy amryw o ymgynghoriadau a grwpiau ffocws.

Cyn uno, roedd Age Concern Cymru a Help the Aged yng Nghymru wedi ceisio datblygu **cydberthynasau gwaith cadarn** gyda dylanwadwyr allweddol, gwleidyddion a gweision sifil. Mae'r gwaith hwn wedi parhau, ac rydym wedi defnyddio'r uno i adfywio ein hymagweddau yn y maes hwn, gan gychwyn gyda'n dathliadau lansio yn Ebrill 2009. Yn unol â'n hegwyddor fod pobl hŷn wrth wraidd pob peth a wnawn, cinio dathlu oedd ein digwyddiad cyntaf gyda phobl hŷn yn Nhŷ Bwyta Harry Ramsden ym Mae Caerdydd. Cawsom ein hannerch gan ein Cadeirydd, Dr Bernadette Fuge a'r Prif Weithredwr, Robert Taylor, a chyflwynodd y digwyddiad yr Elusen, a unwyd o'r newydd, i gynrychiolwyr o lawer o fforymau a grwpiau pobl hŷn yng Nghymru. Cyfarfod brechwast oedd ein hail ddigwyddiad, ar gyfer ein budd-ddeiliaid, gyda'r Prif Weinidog Rhodri Morgan AC yn ein hannerch. Roedd presenoldeb pobl hŷn, gwleidyddion, partneriaid a chydweithwyr o'r sector gwirfoddol, yn y ddau ddigwyddiad, yn arddangos y cyfleoedd i ddylanwadu a'r bartneriaeth yr ydym wedi ceisio'i datblygu trwy gydol y flwyddyn.

Gwnaethpwyd cryn dipyn o waith trefnu a darparu presenoldeb trefniadaethol yng Nghynadledau Gwanwyn 2009 y Partion, gyda chyfres o gyfarfodydd ymylol llwyddiannus ar ofal traed, a gynhaliwyd mewn cydweithrediad â'n partneriaid o ganghennau lleol o Age Concern a'r Cynghrair Gofal Traed (sy'n cynnwys y Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi, Coleg y Therapyddion Galwedigaethol a Chymdeithas y Ciropodyddion a'r Podiatryddion yng Nghymru). Yn ogystal, fe wnaethom fanteisio ar y cyfle i ddefnyddio stondin arddangos i hyrwyddo gofal traed a'n hymgyrch cymunedau. Galluogodd hyn i ni siarad ag amryw o wleidyddion ac i wneud cysylltiadau, sydd wedi eu sefydlu erbyn hyn, ac o ganlyniad gofynnwyd cwestiynau i'r Gweinidogion mewn perthynas â materion, yn cynnwys yr ymgyrch gofal traed.

Anfonwyd crynodebau i'r holl ymgeiswyr cyn etholiadau Senedd Ewrop 2009, er mwyn sicrhau bod y rhai hynny a etholwyd yn ASE yn ymwybodol o faterion sy'n ymwneud â phobl hŷn, ac i ffurfio sail ar gyfer ein cydberthynas â nhw yn y dyfodol.

Cynhaliwyd cyfres o **ddigwyddiadau ymgynghori** gyda phobl hŷn a mudiadau Age Concern, i ddatblygu negeseuon allweddol ar gyfer manifesto a ddisbarthwyd i ymgeiswyr yn etholiad Cyffredinol y DU. O ganlyniad i ddyddiad rhagweledig yr etholiad, cynhaliwyd Cynadleddau Gwanwyn 2010 y Partion yn ystod y flwyddyn, a chynhaliwyd cyfarfodydd eto yng nghynadleddau'r pedwar prif barti, i sicrhau fod yr ymgeiswyr a'r gwleidyddion etholedig yn ymwybodol o'r materion sy'n ymwneud â phobl hŷn ac i hyrwyddo negeseuon y manifesto.

Trwy gydol y flwyddyn, fe wnaethom baratoi crynodebau yn ymateb i ddadleuon a chwestiynau a holwyd yn y Cynulliad Cenedlaethol, i sicrhau bod yr holl Aelodau Cynulliad wedi eu cyfarparu gyda safbwyntiau'r bobl hŷn a safbwynt yr Elusen ar y materion a drafodwyd. Mae llwyddiant y **crynodebau** yma wedi arwain at nifer cynyddol o geisiadau am wybodaeth a barnau oddi wrth Age Cymru. Yn ogystal, roedd yn bosib olrhain eu llwyddiant trwy'r ffordd maent yn cael eu defnyddio mewn sesiynau llawn yn y Senedd. Roedd y crynodebau ar gael yn gyffredinol trwy gyfrwng ein gwefan, ac fe wnaethom eu hysbysebu gan ddefnyddio **Twitter**.

Ymatebodd Age Cymru i 33 o ymgynghoriadau ffurfiol yn ystod y cyfnod, gan sicrhau bod safbwynt oed yn cael ei ddarparu ar amrywiaeth eang o feysydd polisi.

Parhaodd y sefydliad i fod yn aelod gweithgar o'r **Coalition on Charging Cymru**, grŵp lobïo sy'n ymgyrchu dros ofal personol am ddim i bobl hŷn a phobl anabl yng Nghymru. O ganlyniad i lobïo cyson, erbyn hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi pasio deddfwriaeth sy'n ei alluogi i reoli mwy o gysondeb o ran arferion codi tâl awdurdodau lleol. Mae hyn yn debygol o gynnwys uchafswm tâl wythnosol newydd, a fydd o fudd i lawer o bobl ac a fydd yn gam sylweddol tuag at godi tâl tecach am ofal cymdeithasol yng Nghymru.

Rydym yn dal i fod yn aelodau o **Grŵp Cyngori ar Dlodi Tanwydd** Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac roeddem yn aelodau sefydlu o grŵp llywio'r Siarter Tlodi Tanwydd, ochr yn ochr â NEA Cymru, Consumer Focus Wales ac elusennau eraill. Lansiodd y Siarter yn Hydref 2009, i alw am weithredu ar frys i roi'r agenda tlodi tanwydd nôl ar y trywydd cywir ac i adnewyddu'r ffocws ar godi pobl allan o dlodi tanwydd. Roedd yn targedu Strategaeth Tlodi Tanwydd nesaf Llywodraeth Cynulliad Cymru'n benodol. Fe wnaethom gefnogi gweithgareddau'n ymwneud â'r Siarter, yn cynnwys digwyddiadau lobïo gydag Aelodau Cynulliad, y mae'r mwyafrif ohonynt wedi arwyddo'r Siarter. Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Jane Davidson AC, wedi disgrifio'r cynghrair fel un o'r grwpiau lobïo mwyaf effeithiol ers datganoli.

Rhodddwyd cymorth ysgrifenyddol i'r **Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol (NPF)**, grŵp cyngori i Lywodraeth Cynulliad Cymru, wrth drefnu a gweinyddu ei gyfarfodydd. Yn ogystal, fe wnaethom gynorthwyo aelodau hŷn unigol i gyfrannu at gyfarfodydd a phapurau. Cyd-drefnodd yr ysgrifenyddiaeth ymatebion oddi wrth yr aelodau i ymgynghorwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd, mewn meysydd megis Cydlyniant Cymunedol, Tlodi Tanwydd, Nyrsio Cymunedol ac Iechyd Gwledig.

Yn ogystal, fe wnaethom barhau i gynnal yr ysgrifenyddiaeth ar gyfer **Cynghrair Henoed Cymru**, sy'n dod â mudiadau trydydd sector cenedlaethol, sy'n ymwneud â materion sy'n effeithio ar bobl hŷn, ynghyd. Mae'r Cynghrair yn ceisio hwyluso gweithio ar y cyd ar draws y sector, er lles pobl hŷn.

Ym mis Mai 2009, dathlwyd trydedd flwyddyn **Gŵyl Gwanwyn: Gŵyl y Celfyddydau a Chreadigrwydd** ar gyfer Pobl Hŷn. Llwyddodd yr ŵyl i fynd ar drywydd ei nod o hyrwyddo manteision lles i bobl hŷn trwy gyfranogi mewn gweithgareddau artistig a chreadigol, trwy gyfrwng nifer o foddau, yn cynnwys hyrwyddo digwyddiadau lleol ar draws Cymru, trwy ddigwyddiadau arddangos proffil uchel sy'n denu diddordeb y cyhoedd a chomisiynu gwaith cerddorol gan gyfansoddwr blaenllaw o Gymru. Paratowyd ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus a'r cyfryngau, a datblygwyd deunyddiau perthynol i lansio Gŵyl Gwanwyn, a ymddangosodd yn helaeth ar draws y cyfryngau.

Aeth y gwaith helaeth o drefnu a pharatoi ar gyfer Gwanwyn 2010 ymlaen trwy gydol y flwyddyn. Cyflawnwyd datblygiadau o ran cyfranogiad cymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig (yn enwedig y gymuned Pwnjabi) trwy ymglymiad parhaus yn y prosiect 'A Lifetime On Tiptoes', a arddangoswyd trwy berfformiad cyhoeddus a digwyddiad lansio yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ym mis Chwefror, a ymddangosodd ar wefan BBC Cymru.

Ein Gwaith yn y Dyfodol

Byddwn yn parhau i ddatblygu a mireinio ein gwaith dylanwadu. Byddwn yn datblygu ein cydberthynasau gyda'r Aelodau Seneddol a etholwyd yn Etholiad Cyffredinol 2010, a hefyd byddwn yn paratoi maniffesto sy'n traethu negeseuon allweddol i'r holl ymgeiswyr sy'n sefyll yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2011.

Byddwn yn dechrau ar adolygiadau polisi mawr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a chydaddoldeb, i sicrhau ein bod wedi ein cyfarparu i ddylanwadu ar y meysydd polisi allweddol yma.

4. Heneiddio'n Dda a Lles

Mae gan ymyrraeth gynnar a hybu iechyd fuddion iechyd ac economaidd amlwg. Eleni, fe wnaethom barhau i weithio i ddatblygu a hyrwyddo ymagweddau integredig at Heneiddio'n Dda, gyda golwg ar atal afiechyd yn hwyrach mewn oes, ble bod hynny'n bosib.

Trwy ein rhaglen **Heneiddio'n Dda**, rydym wedi darparu gwybodaeth a rhoi cymorth i aelodau o'r Rhwydwaith Heneiddio'n Dda; grwpiau ar hyd a lled Cymru sy'n defnyddio mentoriaid iechyd cymheiriaid i hybu negeseuon heneiddio'n iach ymhlith pobl hŷn. Ym mis Ionawr 2010, fe wnaeth y Gynhadledd Heneiddio'n Dda flynyddol ddarparu cyfres o gyflwyniadau ysbrydoledig i rannu a hyrwyddo arfer da. Roedd y rhain yn cynnwys 'The potential of physical activity' neu 'Get Up and Go!' gan Bob Laventure a 'Flourishing in later life: promoting our mental capital' gan John Gallacher. Yn ogystal, roedd yn cynnwys cyfres o weithdai ar destunau yn cynnwys iechyd rhywiol pobl hŷn, iechyd dynion ac effaith cynllunio cymunedol.

Ym mis Medi 2009, lanswyd y rhaglen **Hyfforddiant Ymarferol Effaith Isel (LIFT)**, rhaglen newydd ac arloesol a ddatblygwyd gan Age Cymru, sy'n rhoi'r cyfle i bobl hŷn i gyfranogi mewn cyfres o weithgareddau a gemau effaith isel, y maent yn medru eu gwneud yn sefyll i fyny neu ar eu heistedd. Datblygwyd a chynhyrchwyd llawlyfr a Chryno Ddisg i fynd gydag ef, i hybu'r gweithgaredd. Dyluniwyd LIFT i gael ei arwain gan bobl hŷn a hyfforddwyd yn arbennig, mewn lleoliadau megis neuaddau cymunedol a phentref ac mae'n cael ei roi ar waith mewn partneriaeth gyda changhennau o Age Concern ym Mhowys, Morgannwg, Caerdydd a'r Fro, Gwynedd a Môn, a Gwent.

Mae ein rhaglen **Cerdded Nordig** yn dal i dyfu ac yn Sioe Frenhinol Cymru ni oedd y sefydliad cyntaf i hyrwyddo gweithgaredd yn yr arena chwaraeon i bobl hŷn, trwy roi cyfle i roi cynnig ar Gerdded Nordig trwy gydol yr wythnos. Yn ogystal, buom ni'n gweithio mewn partneriaeth gyda Lappset, i alluogi pobl i roi cynnig ar ddefnyddio eu cyfarpar gweithgareddau awyr agored. Fe wnaeth y Prif Weinidog Rhodri Morgan AC, y Gweinidog dros Ddiwylliant Alun Ffred Jones AC a Jeff Cuthbert AC ymweld â'r stondin, gan ein galluogi ni i bwysleisio manteision y Rhaglen Cerdded Nordig i bobl hŷn ac effaith ehangach y gwaith a wneir gan y Tîm Heneiddio'n Dda.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd sesiynau profi Cerdded Nordig ym Mharc Cenedlaethol Bannu Brycheiniog, yng Nghanolfan Fynydda Libanus a chynhaliwyd sesiynau pellach ar Gaeau Llandaf yng Nghaerdydd, Merthyr Tudful a'r Ganolfan Gwlypdiroedd Genedlaethol yn Llanelli. Fe wnaethom barhau gyda'r rhaglen o gymorth a roddir i arweinwyr gwirfoddol Teithiau Cerdded Nordig, a gynhelir yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn ac fe wnaethom barhau i recriwtio a hyfforddi arweinwyr newydd.

Cafodd yr ymgyrch **Gofal Piau Hi Y Gaeaf Hwn** ei rhoi ar waith rhwng Medi 2009 a Mawrth 2010. Mae'r ymgyrch hon yn anelu at roi cyngor a chymorth i bobl hŷn, i'w helpu i aros yn ffit ac yn iach yn ystod misoedd y gaeaf, mae'n cynnwys dosbarthu a rheoli adnoddau trwy'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus, paratoi cylchlythyrau cyson a diweddarau a rheoli'r Wefan Gofal Piau Hi Y Gaeaf Hwn. Roedd gennym grantiau ar gyfer mudiadau Age Concern Lleol, a oedd yn creu amryw o brosiectau arloesol i gynnwys pobl hŷn ymhellach a'u cynorthwyo i wirio eu hawl i fudd-daliadau, i gael brechiadau fflw a chyngor ar ynni.

Fe wnaethom gefnogi deg sesiwn hyfforddi ar hyd a lled Cymru, mewn partneriaeth gyda'r NEA (National Energy Action) a'r Gwasanaeth Cyngor ar Bensiynau, gan ddarparu gwybodaeth ar ymwybyddiaeth o ynni a chyngor ar fudd-daliadau. Sicrhaodd hyn y gallai'r staff a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl hŷn adnabod y bobl hynny sydd mewn perygl, eu cynghori a'u cyfeirio at yr asiantaethau priodol i gael cymorth, os oedd angen.

Er mwyn ymdrin â'r cynnydd mewn problemau'n ymwneud ag iechyd rhywiol a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ymhlith pobl dros 50 oed, datblygwyd gweithdy i greu ymwybyddiaeth gweithwyr a gwirfoddolwyr o'r cyngor, y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar eu hangen ar bobl hŷn sydd â phroblemau'n ymwneud ag iechyd a lles rhywiol. Defnyddiwyd aelodaeth o Rwydwaith Iechyd Rhywiol Cymru Gyfan i gael mynediad a darparu gwybodaeth, gyda'r nod o wella lles rhywiol pobl hŷn.

Lansiwyd y rhaglen **Fy Mywyd mewn Cartref Cymru** yn swyddogol ym Mehefin 2009, yng Nghartref Nyrsio College Fields yn Y Barri. Yn bresennol yn y digwyddiad oedd trigolion, teuluoedd a staff, yn ogystal â rheolwyr cartrefi gofal, y Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn a chynrychiolwyr o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Arddangosodd y lansiad nifer o weithgareddau sy'n cael eu cynnal mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

Ariennir y rhaglen gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, trwy Her Iechyd Cymru, i weithio gyda thrigolion cartrefi gofal, eu perthnasau a staff, i ganfod a rhannu syniadau sy'n gwneud bywyd yn well i bobl sy'n byw yn, sy'n ymweld â neu sy'n gweithio mewn cartrefi gofal ar hyd a lled Cymru. Gall y rhain fod yn syniadau syml iawn neu'n newyddbethau cymhleth, ond yr un yw'r nod – gwella bywydau beunyddiol pobl mewn cartrefi gofal. Mae'r rhaglen yn darparu bwletinâu cylchlythyr cyson ar gyfer pob cartref gofal preswyl i bobl hŷn yng Nghymru ac mae'n darparu gweithdai ar gyfer staff mewn cartrefi sy'n cyfranogi, yn seiliedig ar themâu'r rhaglen. Yn ogystal, ym mis Tachwedd 2009, cynhaliwyd cynhadledd lawn yn Y Drenewydd, a fynychwyd gan staff a rheolwyr cartrefi gofal, a rhoddwyd cyfle iddynt i ddysgu am y rhaglen, sut y gallant ymwneud â hi a rhoddwyd gwybodaeth am ddatblygiadau perthnasol o ran arfer.

Ein Gwaith yn y Dyfodol

Er mwyn datblygu gallu cyrraedd ein gwaith heneiddio'n iach ymhellach, byddwn yn parhau i weithio ar ddatblygu hyfforddiant a deunyddiau rhaeadru. Yn ogystal, byddwn yn datblygu ein hymgyrch Gofal Piau Hi Y Gaeaf Hwn i mewn i raglen o gynlluniau iechyd trwy gydol y flwyddyn. Bydd y Rhaglen Fy Mywyd mewn Cartref Cymru yn symud i mewn i ail a thrydydd cam y gwaith o gynyddu'r nifer o gartrefi sy'n cyfranogi a darparu amrywiaeth pellach o adnoddau y gellir eu defnyddio ym mhob cartref gofal yng Nghymru.

5. Cynladwyedd a Datblygu Rhwydwaith

Er mwyn cyflawni ein hamcanion a darparu ein hamcanion elusennol, mae'n hanfodol ein bod yn ymdrechu am gynladwyedd a rhagoriaeth drefniadaethol.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o weithredu, mae Age Cymru wedi mynd ati i **ailstrwythuro'n** fewnol i raddau helaeth, a oedd yn cynnwys ymgynghori mewnol eang, adleoli ac integreiddio timau o staff a datblygu polisïau a gweithdrefnau priodol. Rhoddwyd ein cynigion strwythurol mewnol ar waith, yn unol ag arfer da, i sicrhau cyfnod pontio llyfn.

Ein man cychwyn ar gyfer yr ailstrwythuro mewnol oedd ystyried beth oedd ei angen er mwyn cyflawni newid cadarnhaol i fywydau pobl hŷn yng Nghymru. Daethom i'r casgliad ein bod ni angen polisi cryf a'r gallu i ymgyrchu, sylfaen gadarn o dystiolaeth ac i fod mewn sefyllfa i sicrhau bod cynnyrch a gwasanaethau effeithiol, hygyrch ac o ansawdd uchel ar gael ar gyfer pobl hŷn.

Daethom i'r casgliad hefyd mai ein hymagwedd fydd gweithio trwy gyfrwng **partneriaethau** effeithiol, a chanlyniad hynny oedd ffocws cryf ar gymorth a **datblygu rhwydweithiau**. Trwy sefydlu cydberthynasau effeithiol ar lefel genedlaethol a'r DU gyda'n cydweithwyr yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae corff mawr o waith wedi cael ei wneud yn ystod y flwyddyn, i ddatblygu cydberthynasau yn y dyfodol rhwng ein

Helusen newydd a mudiadau Age Concern lleol, a fydd y ein galluogi i weithio gyda'n gilydd i gyflawni ein gweledigaeth gyfrannol. Datblygwyd a dosbarthwyd cyfres o bapurau ac mae'r gwaith yn y maes hwn yn parhau. Yn ogystal, fe wnaethom barhau i ddarparu cymorth ysgrifenyddol ar gyfer Partneriaeth Age Concern Cymru, y broses ffurfiol a ddefnyddir gan fudiadau Age Concern i weithio gyda'i gilydd ar hyd a lled Cymru, er lles pobl hŷn.

Fe wnaeth y tîm cyfathrebu a marchnata ymgymryd â rhaglen waith helaeth, i gynorthwyo gyda lansiad y **brand newydd** ym mis Ebrill 2010. Trwy gydol y flwyddyn, daeth y cyfryngau at yr Elusen i ofyn am sylwadau ar amryw o faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn, gan gadarnhau statws y sefydliad fel arbenigwr yn y maes. Yn ogystal, fe wnaethom gyhoeddi 41 o ddatganiadau i'r wasg, ac fe wnaethom symbylu a datblygu colofn wythnosol yn y South Wales Echo, gan roi gwybodaeth a chyngor ar faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn.

Fel sefydliad newydd, fe wnaethom barhau i sicrhau bod ein gwaith yn seiliedig ar dystiolaeth. Ym mis Chwefror 2010, fe wnaethom gomisiynu arolwg barn ar faterion allweddol sy'n effeithio ar bobl hŷn, a ddefnyddiwyd trwy gydol y flwyddyn. Ategwyd ein hymgyrch Etholiad Cyffredinol gan ymchwil academiaidd, a allai ddangos pwysigrwydd y bleidlais hŷn i wleidyddion. Trwy ychwanegu'n gyson at ein banc data, rydym yn dod â'r materion a grybwyllwyd gan bobl hŷn a sefydliadau ar hyd a lled Cymru ynghyd, ar sail feunyddiol.

Ein Gwaith yn y Dyfodol

Yn ystod 2010/11, byddwn yn cwblhau'r trefniadau ar gyfer ein cydberthynasau gyda **Phartneriaid Brand** yn y dyfodol. Yn ogystal, byddwn yn parhau i sicrhau bod ein polisiâu mewnol yn dilyn arfer da a'u bod yn cefnogi ein hamcanion elusennol, trwy roi rhaglen o adolygu cyson ar waith. Byddwn yn hyrwyddo ein brand newydd yn gyffredinol a byddwn yn sicrhau ein bod ni, wrth wneud hyn, yn gwneud ein gwaith yn hygyrch i'r gynulleidfa fwyaf posib.

Byddwn yn datblygu cynhyrchu incwm ar gyfer sylfaen ariannu amrywiol, er mwyn gwneud Age Cymru a'n Partneriaid Brand yn gynaliadwy.

Cydnabyddiaeth

Rydym yn hynod ddiolchgar i'r canlynol am eu cymorth ariannol ac 'mewn caredigrwydd' yn ystod y flwyddyn:

Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Gronfa Loteri Fawr, Age UK, Comic Relief, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Digital Outreach, Sefydliad Robert McAlpine, Lappset, Cyngor Chwaraeon Cymru, Mentrau Age Concern, innocent, Sainsbury's, LIDL, staff yn codi arian yn y Ganolfan Byd Gwaith - Pen-y-bont ar Ogwr, y Ganolfan Byd Gwaith - Bangor, Clarkslegal a Liberata, B&Q, Y Brifysgol Agored yng Nghymru, Cyfreithwyr Hugh James, Nwy Prydain, Western Power Distribution, Wales and West Utilities, Ecom Learning Solutions Ltd - a'r niferus gwmnïau eraill sydd wedi ein cefnogi yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn hynod o ddiolchgar i'r niferus unigolion sydd wedi rhoi'n hael ac sydd wedi codi arian i ni yn ystod y flwyddyn.

Adolygiad Ariannol

Ar y 1^{af} o Ebrill 2009, cymerodd Age Cymru'r awenau dros weithrediadau cytunedig Help the Aged yng Nghymru a holl asedau a rhwymedigaethau Cyngor Cymru ar Heneiddio (Age Concern Cymru), ac eithrio'r eiddo ar brydles, benthyciad banc a'r rhaglen cronfa gyfyngedig ar Gydraddoldeb. Age Cymru yw unig Ymddiriedolwr Cyngor Cymru ar Heneiddio ac mae wedi cael caniatâd oddi wrth y Comisiwn Elusennau ar gyfer Cyfarwyddyd Cyfunol, i Age Cymru i gyflwyno un set gyfunol o gyfrifon ac adroddiad blynyddol ar gyfer y ddwy elusen.

Dylid nodi i'r arian a gadwyd ar gyfer gwaith ym Mhowys a'r staff a gyflogwyd i weithio ym Mhowys yn benodol gael ei drosglwyddo oddi wrth Age Concern Cymru i Age Concern Powys ar yr 31^{ain} o Fawrth 2009 ac felly nid yw'n ymddangos yn y cyfrifon.

Y cyfrifon ar dudalennau 25 i 29 yw'r gyfres gyntaf o gyfrifon ar gyfer yr elusen newydd, ac o ganlyniad does dim data cymharol ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

Cyflwynir y datganiadau ariannol ar y ffurf sy'n ofynnol gan Ddatganiad o Arfer a Argymhellir (SORP) yr Elusen 2005. Dengys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol (SOFA) incwm gros o'r holl ffynonellau a rhaniad y gweithgareddau rhwng cronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig.

Mewnllif Adnoddau

Cyfanswm y mewnllif adnoddau ar gyfer 2009/2010 oedd £2,170,223. Roedd y grantiau'n cynnwys £1,312,894 (60% o gyfanswm yr incwm), gydag incwm oddi wrth Age UK o £589,510 (27%). Yn unol â threfniant gydag Age UK, derbyniodd Age Cymru £135,193 (6%) oddi wrth Age Concern Enterprises Ltd (ACEnt). Yn ogystal, dychwelwyd incwm o'r trefniant manwerthu £12,492 ac ohono mae 37.5% wedi cael ei ddyrannu fel grantiau i fudiadau Age Concern lleol a throsglwyddwyd 12.5% i gronfa i ddatblygu Partneriaeth Age Concern Cymru.

Buddsoddwyd arian yn unol â'r Polisi Rheoli'r Trysorlys, a arweiniodd at dderbyn incwm o £8,696 yn y flwyddyn. Gostyngwyd y benthyciad banc i brynu'r swyddfeydd gan £40,536 yn ystod y flwyddyn.

Fel y nodwyd eisoes, cafodd holl gronfeydd anghyfyngedig Age Concern Cymru eu trosglwyddo i Age Cymru ar y 1^{af} o Ebrill 2009, ynghyd â balansau'r holl gronfeydd cyfyngedig, ac eithrio'r prosiect Cydraddoldeb. Mae'r cyfrifon cyfunol yn cynnwys Gweithgareddau Ariannol Age Concern Cymru, ac mae manylion pellach amdanynt i'w cael yn nodyn 19 i'r cyfrifon. Derbyniodd Age Concern Cymru incwm o £33,894, a oedd yn cynnwys £6,594 oddi wrth y Gronfa Loteri Fawr ar gyfer y prosiect Cydraddoldeb, a £27,300 oddi wrth Age Cymru am ddefnyddio'r swyddfeydd. Gwariodd Age Concern Cymru £18,947 ar y prosiect Cydraddoldeb, a gwblhawyd ym mis Medi 2009, ac aeth i gost o £27,300 ar log morgais a dibrisiad y swyddfa.

All-lif Adnoddau

Canran o Gyfanswm yr All-lif Adnoddau

2009/2010

	%
Gweithgareddau Elusennol	94
Cost Codi Arian	4
Llywodraethu	2
	<hr/>
	<u>100</u>

Cyfanswm y swm a wariwyd ar wariant elusennol oedd £2,003,637. Dangosir hyn ar y SOFA o dan y pum nod, fe'u hesbonnir yn y prif adroddiad ac fe'u dadansoddir yn nodyn 5.

Cost codi arian oedd £85,190. Yn dilyn yr ailstrwythuro, penodwyd aelod ymroddedig o staff, ar y 1^{af} o Ionawr 2010, i ymgymryd â'r gwaith hwn.

Mae costau staff sy'n gynwysedig yn y categorïau uchod fel canran o gyfanswm yr all-lif adnoddau yn 66% ac maent yn cynnwys costau ailstrwythuro wedi'r uno.

Daeth pedwar prosiect cronfa gyfyngedig i ben yn ystod y flwyddyn, Gwybodaeth a Chyngor, Cydraddoldeb (Age Concern Cymru), elfen Cyngor Cefn Gwlad Cymru o'r prosiect Cerdded Nordig a Chynhwysiant Digidol. Mae balans y cronfeydd cyfyngedig wedi gostwng gan £96,804 o'r 1^{af} o Ebrill 2009, i falans o £277,538. Mae hyn yn cynnwys £3,605, a gedwir ar ran Pwyllgor Codi Arian Caerdydd.

Cyfanswm y cronfeydd anghyfyngedig, wedi darparu arian ar gyfer y diffyg a ragwelir mewn pensiynau, yw £990,268. Mae hyn yn cynnwys cronfa ddynodedig o £139,623, sy'n ofynnol i gefnogi prosiectau penodol sy'n ymwneud â chynnwys ac ymwneud â phobl hŷn yng Nghymru, a thrwy'r prosiect Tyfu'n Hŷn yng Nghymru, i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â chydaddoldeb o ran oed ac i ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant arbenigol ar ymwybyddiaeth o oed a diogelu oed.

Mae'r cyfrifon cyfunol yn cynnwys gwariant o £46,247 gan Age Concern Cymru. Roedd hyn yn cynnwys £27,298 ar log morgais a dibrisiad y swyddfa, £2 i ddileu cyfrandaliadau Age Concern Cymru (Masnachu) Cyfyngedig, a £18,947 a wariwyd ar y Rhaglen Cydraddoldeb.

Polisi Cronfeydd Wrth Gefn

